OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 1607 (Cy.166)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Awdurdod Iechyd Dyfed Powys ac Awdurdod Iechyd Gwent (Trosglwyddo Eiddo Ymddiriedolaeth) 2004

Wedi'i wneud	- -	*23 Mehefin 2004*
Yn dod i rym	- -	*30 Mehefin 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 92(1), (4) a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**) ar ôl rhoi sylw i newidiadau yn y trefniadau ar gyfer gweinyddu'r gwasanaeth iechyd yn ardaloedd Awdurdod Iechyd Dyfed Powys ac Awdurdod Iechyd Gwent, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a dehongli.

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdod Iechyd Dyfed Powys ac Awdurdod Iechyd Gwent (Trosglwyddo Eiddo Ymddiriedolaeth) 2004 a daw i rym ar 30 Mehefin 2004.

(2) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "eiddo ymddiriedolaeth Dyfed Powys" ("*Dyfed Powys trust property*") yw'r eiddo a bennir yn Atodlen 1;

ystyr "eiddo ymddiriedolaeth Gwent" ("*Gwent trust property*") yw'r eiddo a bennir yng Ngholofn 1 o Atodlen 2.

Trosglwyddo eiddo ymddiriedolaeth Dyfed Powys

2.—(1) Ar 1 Gorffennaf 2004 trosglwyddir eiddo ymddiriedolaeth Dyfed Powys ynghyd ag unrhyw hawliau a rhwymedigaethau sy'n codi ohono(**2**) i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre(**3**).

(**1**) 1977 p.49. Diwygiwyd adran 92 gan adran 11(5) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p. 19) ("Deddf 1990"), a pharagraff 44 o Atodlen 1 i Ddeddf Awdurdodau Iechyd 1995 (p.17) a chan baragraff 28 o Atodlen 4 i Ddeddf Iechyd 1999 (p. 8) ("Deddf 1999"); diwygiwyd adran 126(4) gan adran 65(2) o Ddeddf 1990 a chan baragraff 37(6) o Atodlen 4 i Ddeddf 1999. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 92 a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 ("Deddf 1977") i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1.

(**2**) *Gweler* adran 96 o Ddeddf 1977 fel y'i diwygiwyd gan baragraff 29 o Atodlen 4 i Ddeddf 1999 sy'n gwneud darpariaethau atodol ynghylch trosglwyddo eiddo o dan adran 92 o Ddeddf 1977.

(**3**) Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre o dan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993 O.S. 1993/2838 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1999/826 ac O.S. 2002/442 (Cy.57).